

BWLETIN MIS EBRILL BINIAU

Mae'n debygol y bydd casgliadau'r biniau duon yn cael eu newid o bob pythefnos i unwaith bob 3 wythnos. Mae hyn er mwyn cyrraedd targedau ail-gylchu Cyngor Sir Conwy.

Bydd popeth arall: bocsys ail-gylchu; biniau compost; bagiau batris, yn aros yr un fath. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd gwasanaeth casglu clytiau wythnosol ar gael. Os ydych yn cael trafferthion gydag unrhyw agwedd o ail-gylchu cysylltwch â'r: Adran Ail-gylchu ar 575337 a chadwch olwg ar ein gwefan www.eglwysbach.org.uk neu'r dudalen Facebook Cymuned Eglwysbach am wybodaeth bellach a'r newyddion diweddaraf.

Efallai bod gennych hawl i ail set o focsys ail-gylchu neu bin mwy. Hefyd os oes gennych broblemau cof, anabledd neu wastraff meddygol bydd y Sir yn gwneud trefniadau arbennig i'ch cynorthwyo.

Bydd trefn ail-gylchu a gwaredu sbwriel effeithiol o fudd i bawb ohonom yn y pendraw. Mae gan Gonwy record ardderchog mewn ail-gylchu.

